monmouthshire
sir fynwy

**CABINET**
**LOG COFNODI PENDERFYNIAD**

**DYDDIAD GWNEUD Y PENDERFYNIAD: Dydd Mercher 6 Ionawr 2021**

**DAW'R PENDERFYNIAD I RYM: Dydd Gwener 15 Ionawr 2021**

*Gall penderfyniadau a wneir gan y cabinet llawn ac aelodau unigol o'r cabinet gael eu 'galw mewn' gan y Pwyllgor Dethol perthnasol. Os caiff penderfyniad ei alw mewn, ni fydd yn dod i rym fel y nodir uchod a chaiff ei gyflwyno eto ar ddyddiad diweddarach*
.

**CABINET MEMBERS PRESENT:**

County Councillors P.A. Fox, R.J.W. Greenland, R.John, P. Jones, S. Jones, P. Jordan, P. Murphy,, J.Pratt

**OTHER ELECTED MEMBERS PRESENT:**

County Councillors J.Watkins and K. Williams

**OFFICERS PRESENT**

Matt Phillips, Peter Davies, Paul Matthews, Will Mclean, Nicola Perry, Frances O'Brien, Stephen Griffiths, Ian Bakewell and Nikki Wellington

| Item Number | Title | Purpose, Consultation & Author | Declaration of Interests | Decision |
|---|---|---|---|---|
| **3a** | MONITRO REFENIW A CHYFALAF 2020/21 | As set out in the report | | RESOLVED:<br>PENDERFYNWYD:<br>Bod y Cabinet yn cydnabod rhagolwg diffyg refeniw net ym mis 7 o £6.43m, gwelliant o £995k o fis 5 ac sy'n cynnwys<br>a) Rhagolwg diffyg heb fod yn gysylltiedig â COVID-19 o £518k i gael ei reoli yn y flwyddyn, sy'n ostyngiad o £713k ers mis 5, gyda £675k yn ganlyniad uniongyrchol i'r penderfyniad i gyfalafu gwariant cymwys a chyllid o dderbyniadau cyfalaf dan gyfarwyddeb defnydd hyblyg o dderbyniadau cyfalaf.<br>b) Rhagolwg diffyg o £5.91m sy'n uniongyrchol gysylltiedig gyda'r pwysau ariannol anghyffredin yn gysylltiedig â COVID-19 a lle tybir y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyllido'r holl golledion incwm a phwysau cost cymwys. Mae hyn yn welliant bach o £282k o'r rhagolwg sefyllfa ym mis 5.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod ers cynhyrchu rhagolygon y gyllideb ar gyfer mis 7 bod Llywodraeth Cymru wedi hysbysu'r Awdurdod y bydd swm pellach o £1.78m ar gael i'r Awdurdod ar gyfer colledion incwm ar gyfer chwarter 2 y flwyddyn ariannol a bydd yn ei dro yn gostwng rhagolwg diffyg cysylltiedig â Covid o £5.91m i £4.13m.<br><br>Mae'r Cabinet yn parhau i wneud sylwadau cryf i Lywodraeth Cymru i gadarnhau ad-daliad llawn o golledion incwm cysylltiedig â COVID o £4.13m a phwysau cost cyn gynted ag sydd modd ac i ddileu risg ariannol yn mynd i ddiwedd y flwyddyn ariannol.<br><br>Mae'r Cabinet yn nodi y caiff diffyg heb fod yn gysylltiedig â COVID o £518k ei reoli drwy ostwng costau a chymryd camau ar unwaith i ostwng gwariant heb fod yn hanfodol, gan gydnabod y bydd gostyngiadau cost wedi'i dargedu ac wedi'i gynllunio yn her yn yr amgylchedd gweithredu presennol a gan y bydd y Cyngor bob amser yn mynd ati i ostwng effaith ar gyflenwi gwasanaeth. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Wrth ddilyn yr ymagwedd a nodir uchod, mae'r Cabinet yn cydnabod natur anghyffredin y flwyddyn bresennol ac yn derbyn y bydd angen i bwysau gwasanaethau sylweddol gael eu hymgorffori yn y broses barhaus o osod cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/os na chânt eu lliniaru fel arall.<br><br>Mae Cyngor yn nodi maint y symudiadau a ragwelir yn nefnydd cronfeydd wrth gefn Ysgolion yn atodiad 1.<br><br>Mae'r Cabinet yn ystyried y rhagolwg o wariant all-dro cyfalaf o £25.3m wrth ochr llithriad sylweddol o £37.4m a'r tybiaethau a wnaed o amgylch y canlyniadau cyllido, fel yr amlinellir yn atodiad 1.<br><br>Mae'r Cabinet yn cydnabod y bydd yn rhaid ailystyried y rhagolwg os nad yw Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r disgwyliad yn llawn i ddigolledu'r Cyngor am gostau a cholledion incwm cysylltiedig â COVID. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3b** | DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIADOL 2000 (RIPA) | As set out in the report | | RESOLVED:<br>PENDERFYNWYD:<br>Mae'r Cabinet yn cymeradwyo Polisi RIPA Cyngor Sir Fynwy.<br><br>Mae'r Cabinet yn nodi Adroddiad Arolwg diweddar IPCO. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3c** | ASESIAD LLETY SIPSIWN A THEITHWYR | As set out in the report | | RESOLVED:<br>PENDERFYNWYD<br>Mae'r Cabinet yn mabwysiadu Asesiad Llety Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn (GTAA) 2021 – 2026 a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. |
| **Additional Information:** | | | | |
| | | | | |
| | | | | |